**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru**

Hydref 2012

## Crynodeb Gweithredol

## Polisi Ynni

Mae pob agwedd ar ein bywydau yn dibynnu ar ein system ynni. Mae'r system honno bellach yn wynebu newidiadau mawr wrth i ni ei haddasu er mwyn cyflawni amrywiaeth o amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Golyga'r newidiadau hyn, a amlinellir yn ein dogfen bolisi, *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*, ein bod yn disgwyl i'n system ynni:

- gael ei dadgarboneiddio'n fwyfwy – ail-gadarnhaodd Cyngor Ewrop ym mis Chwefror 2011 fod yr Undeb Ewropeaidd yn anelu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80-95% erbyn 2050 o gymharu â 1990, a gaiff effaith ganlyniadol o ran cynyddu faint o drydan carbon isel a gynhyrchir;
- cyrraedd safonau amgylcheddol eraill megis y rhai ar gyfer llygryddion a gwastraff;
- diogelu a sicrhau ffynonellau ynni; a
- sicrhau fforddiadwyedd, drwy farchnadoedd ynni, a fframwaith credadwy ar gyfer buddsoddiad hirdymor.

Felly, rydym yn newid system gyfan i ynni carbon isel – trydan, gwresogi a thrafnidiaeth – sy'n gyfystyr â chwyldro o ran y ffordd rydym yn diwallu ac yn rheoli ein hanghenion ynni. Mae'r newidiadau hyn eisoes yn digwydd ac er nad yw polisi ynni yn fater datganoledig, mae nifer fawr o bolisïau galluogi allweddol yn faterion datganoledig – gan gynnwys datblygu economaidd, tai, cynllunio, rheoleiddio amgylcheddol, llygredd a thrafnidiaeth.

Rydym am gael dull gweithredu gwirioneddol gynaliadwy ar gyfer ynni sy'n adlewyrchu ein prif egwyddor drefniadol ac yn gwella lles pobl Cymru, gan sicrhau gwell ansawdd bywyd ar gyfer ein cenedlaethau ni a chenedlaethau'r dyfodol. Golyga hyn weithio tuag at economi carbon isel fel yr amlinellir yn ein *Rhaglen Lywodraethu*. Rydym hefyd eisiau manteisio'n llawn ar y newid - i sicrhau dyfodol cyfoethocach, mwy gwydn a chynaliadwy i Gymru - drwy wneud y gorau o'r buddion economaidd tymor hir, ac yn enwedig y potensial i gael mwy na'r gyfran gyfrannol o 250,000 o swyddi newydd a ragwelir yn y DU erbyn 2020.

Mae'n bwysig sicrhau bod cymunedau'n elwa o ddatblygiadau seilwaith ynni a bod buddion amlwg i'r gymuned. Felly byddwn yn cynllunio ac yn rheoli'r berthynas rhwng datblygiadau ynni a'n hamgylchedd naturiol yn ofalus, yn unol ag uchelgais 'Cynnal Cymru Fyw.' Mae Cymru 'ar agor i fusnes' ac rydym yn gweithio gyda'r sector ynni i helpu i sicrhau ffyniant hirdymor a swyddi i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i arloesedd ac mae gan Gymru sylfaen arloesi gadarn. Er enghraifft, rydym wedi buddsoddi £19m yn Sefydliad Ymchwil Carbon Isel Cymru, sy'n werth £34m.

## Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol Cymru

Dibenion cynllunio defnydd tir

Mae'r system gynllunio yn rheoleiddio datblygiad a defnydd tir er budd y cyhoedd, ac mae'n ymestyn at y marc distyll. Mae'n cysoni anghenion datblygu a chadwraeth, sicrhau economi, effeithlonrwydd ac amwynder o ran defnydd tir, a diogelu adnoddau naturiol a'r amgylchedd hanesyddol, a thrwy hynny, mae'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Mae'n rhaid i'r system gynllunio ddarparu ar gyfer cyflenwad digonol a pharhaus o dir, sydd ar gael ac sy'n addas i'w ddatblygu i fodloni anghenion y gymdeithas. Pan fwriedir cael datblygiad newydd neu newid defnydd, mae'r system gynllunio yn ffordd bwysig o gyflawni blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, er enghraifft lleihau carbon.

Darperir y gwasanaeth o ddydd i ddydd gan 25 awdurdod cynllunio lleol (22 awdurdod Unedol a 3 awdurdod Parc Cenedlaethol) sy'n gyfrifol am baratoi cynlluniau datblygu (Cynlluniau Datblygu Lleol ac Unedol) ac am benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio wasanaeth apêl ar gyfer y ceisiadau hynny a wrthodir, ac mae hefyd yn archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol.

Fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol

Mae'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol. Mae'r rhain wedi eu llunio i gyflawni polisïau Gweinidogion Cymru, gan gynnwys Chwyldro Carbon Isel. Mae'r Nodiadau Cyngor Technegol yn esbonio sut y dylid cymhwyso'r datganiadau polisi ym Mholisi Cynllunio Cymru drwy gynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Rhaid ystyried y polisi cynllunio cenedlaethol wrth baratoi cynlluniau datblygu ac fe allant fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, boed hwy'n benderfyniadau gan yr awdurdodau cynllunio lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio neu Weinidogion Cymru.

Mae datblygu cynaliadwy yn thema ganolog ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol. Mae pennod 'Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd' ym Mholisi Cynllunio Cymru yn nodi rôl y system gynllunio o ran creu Cymru fwy cynaliadwy. Mae'n nodi'r egwyddorion allweddol a'r amcanion polisi sy'n sail i'n dull o gynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a darparu ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel ar bob graddfa.

Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel

Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau bod canllawiau a pholisi cynllunio cenedlaethol ar bob lefel yn hwyluso rhoi ein dyheadau ynni a newid hinsawdd ar waith. Un o'n hamcanion polisi cynllunio allweddol fel a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru yw *darparu ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddadwy a rhad-ar-garbon ar bob graddfa*. Amlinellir ein canllawiau a'n polisi cenedlaethol yn Adran 12.8-10 Polisi Cynllunio Cymru. Cafodd hwn ei

ddiweddaru ym mis Chwefror 2011 ar ôl cyhoeddi Chwyldro Carbon Isel. Mae ein polisi diwygiedig yn ceisio sefydlu fframwaith lle dylai awdurdodau cynllunio lleol gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer pob math o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.

Mae ein polisi cynllunio yn annog prosiectau ynni cymunedol, er nad oes fawr o gynigion wedi'u cyflwyno yng Nghymru hyd yma. Hefyd, mae'r rheoliadau cynllunio ar gyfer cyfarpar microgynhyrchu wedi cael eu llacio yn ystod y blynyddoedd diweddar, gyda diwygiadau pellach ar y gweill, yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd. Er bod microgynhyrchu yn werthfawr, bychan iawn yw'r cyfraniad a ddisgwylir ganddo o gymharu â graddfa'r her sy'n ein hwynebu o gyflenwi ynni carbon isel.

<u>Nodyn Cyngor Technegol 8</u>

Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol 8 yn 2005 yn dilyn ymgynghori helaeth a mewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae'n seiliedig ar waith ymchwil empirig annibynnol ac mae'n rhoi cyngor ar oblygiadau cynllunio amrywiaeth eang o dechnolegau ynni adnewyddadwy gan gynnwys gwynt ar y tir, treulio anaerobig, biodanwydd ar gyfer cerbydau, gwres a phŵer cyfunedig, ynni o wastraff, cnydau tanwydd (gan gynnwys tanwydd coed), ynni dŵr, methan, a systemau solar thermol a solar foltäig.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 yn dynodi goblygiadau cynllunio defnydd tir ar fodloni ein dyheadau o ran ynni. Swyddogaeth bwysig Nodyn Cyngor Technegol 8 yw cyfyngu ar dwf ffermydd gwynt ar raddfa fawr mewn rhannau eraill o Gymru. Er mwyn cyflawni hyn, dynodwyd saith Ardal Chwilio Strategol, addas ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr (dros 25 megawat).

<u>Cynllunio ar y Môr</u>

O dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer yr ardal forol sydd, at ddibenion cynllunio morol, yn ymestyn at y llinell ganol, h.y. hanner ffordd rhwng Cymru a'r gwledydd cyfagos. Diben cynllunio morol o dan y Ddeddf yw helpu i sicrhau datblygiadau cynaliadwy yn yr ardal forol; bydd rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr ar y dechrau o ran penderfyniadau trwyddedu/cydsynio wrth geisio cael cydsyniad yn fesur allweddol o lwyddiant.

Ar ôl ymgynghori ynghylch ein dull gweithredu ar gyfer cynllunio morol, rydym yn anelu at ddatblygu a mabwysiadu cynllun cenedlaethol erbyn 2013/14. Unwaith y bydd wedi cael ei fabwysiadu, bydd gofyn i benderfyniadau sy'n berthnasol i ardal forol Cymru gael eu gwneud yn unol â'r cynllun morol, yn gyffredinol. Bydd angen i Weinidogion Llywodraeth y DU gytuno ar y cynllun os bydd yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl, fel ynni.

Rydym wedi mabwysiadu Datganiad Polisi Morol ar gyfer y DU gyfan ar y cyd â Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill. Mae'r datganiad yn gosod fframwaith blaenoriaeth polisi strategol ar gyfer cynlluniau morol ledled y DU, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ynni.

**Ymatebion i argymhellion unigol**

***Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cyflawni Ynni Adnewyddadwy i weithredu fel corff cydgysylltu gyda chynrychiolwyr o'r llywodraeth, datblygwyr a rheoleiddwyr.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Rhaglen Ynni Cymru wedi'i pharatoi i gyflwyno *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel.* Wrth wneud hynny, bydd angen ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol (fel busnesau, llywodraeth, rheoleiddwyr, cymunedau a chyrff ymchwil) i ddatblygu ein cynlluniau, rhoi sicrwydd, cael gwared â rhwystrau a chyflawni.

Bydd arnom angen datblygu dulliau ymgysylltu, cefnogi ein hamcanion cyffredinol yn ogystal â chanolbwyntio digon ar faterion sector-benodol. Rydym wedi edrych ar ddull gweithredu'r Alban, ond yn hytrach na chopïo'r Alban, rydym yn ceisio sicrhau bod y swyddogaethau angenrheidiol yng Nghymru'n ysgogi'r dull ymgysylltu. Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o fecanweithiau ymgysylltu ar waith eisoes. Rydym yn adolygu sut y gall trefniadau presennol ddarparu'r swyddogaethau angenrheidiol, a ble y gallai fod angen eu gwella neu eu cryfhau. Bydd ein dull ymgysylltu'n cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

***Argymhelliad 2. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid i ryddhau'r ôl-groniad o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru.***

**Ymateb: Derbyn**

Fe wnaethom gomisiynu Hyder i werthuso prosesau cydsynio prosiectau ynni adnewyddadwy er 2005 yng Nghymru. Cyhoeddwyd hwn ar 17 Medi 2011, a byddwn yn ystyried sut y gallwn wella prosesau cydsynio'r holl gynlluniau ynni adnewyddadwy o dan 50 megawat fel rhan o'r Papur Gwyn ar Gynllunio. Hefyd, byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid pwysig gan gynnwys yr heddlu, yr Asiantaeth Priffyrdd, Awdurdodau Priffyrdd Lleol a'r cwmnïau ynni adnewyddadwy er mwyn ceisio sicrhau bod materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yng nghanolbarth Cymru yn cael eu datrys yn ddigonol.

***Argymhelliad 3.*** *Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu trefniadau gwaith ffurfiol, yn enwedig ar lefel ranbarthol ar ymdrin â phrosiectau ynni adnewyddadwy (agenda Simpson).*

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o dystiolaeth ar gyfer y Bil Cynllunio. Mae hyn wedi cynnwys argymhellion ynghylch y prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, a byddwn yn ystyried hyn fel rhan o'r Papur Gwyn ar Gynllunio. Un o'r profion o gadernid ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yw'r gofyn i ystyried y cynlluniau, y polisïau a'r strategaethau perthnasol

sy’n berthnasol i ardaloedd cyfagos, a byddwn yn parhau i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn rhoi sylw i faterion ar lefel ranbarthol.

***Argymhelliad 4****. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Cynllun Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru erbyn diwedd 2013. Byddai’r cynllun hwn yn cyd-fynd â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, yn cael ei integreiddio â'r Cynllun Gofodol Morol ac yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllunio prosiectau ynni yng Nghymru yn y dyfodol. Dylai'r fframwaith fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai archwiliad annibynnol brofi pa mor "gadarn" ydyw cyn ei fabwysiadu.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Roedd y papur ymgynghori *Cynnal Cymru Fyw* yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio adnoddau naturiol, yn seiliedig ar ddefnyddio dull ecosystemau o weithredu ar gyfer pob penderfyniad sy’n effeithio ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol. Diben fframwaith cenedlaethol o’r fath yw dod â nifer o gynlluniau sector-benodol a pholisïau sy’n effeithio ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol ynghyd, i ddod o hyd i feysydd cyffredin a datrys nodau sy’n gwrthdaro â’i gilydd, ac er mwyn gallu sefydlu set glir o flaenoriaethau gofodol cenedlaethol sy'n ymgorffori egwyddorion y dull ecosystemau o weithredu.

Mae angen i’r gwaith hwn gydblethu â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a Chynllun Gofodol Morol Cymru, sydd wrthi’n cael ei ddatblygu. Mae angen i gynllunio adnoddau naturiol gydblethu â threfniadau cynllunio a gwneud penderfyniadau presennol, ac ychwanegu gwerth atynt. Felly mae gofyn ystyried perthynas hyn â'r systemau presennol yn ofalus iawn. Unwaith y bydd ar waith, bydd y fframwaith cynllunio adnoddau naturiol newydd yn cyfrannu at gynllunio a datblygu prosiectau ynni yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad *Cynnal Cymru Fyw* yn cyfrannu at y gwaith ar gynllunio adnoddau naturiol, a byddwn yn ymgynghori â’r rhanddeiliaid a’r arbenigwyr perthnasol er mwyn datblygu a symud y dull ymlaen ymhellach, gan gynnwys corff adnoddau naturiol newydd Cymru.

Mae yna gysylltiadau clir gyda’n gwaith parhaus o ddatblygu cynllunio gofodol morol, ac mae’n bwysig ein bod ni’n integreiddio ar draws amgylcheddau Cymru ar y tir a’r môr.

***Argymhelliad 5****. Argymhellodd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad y dylid adolygu rôl a swyddogaeth Cynllun Gofodol Cymru. Mae angen datblygu hyn ochr yn ochr â gwaith ar gynllunio adnoddau naturiol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Pwrpas allweddol Cynllun Gofodol Cymru oedd cydnabod y dylai polisïau a’r modd y cânt eu rhoi ar waith, adlewyrchu gwahaniaethau yng Nghymru – nid yw un ateb yn addas i bawb. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn, a byddwn yn parhau i weithio i wella pethau ymhellach, gan

ymgorffori egwyddorion ac ethos cynllunio gofodol yn ein polisïau. Adlewyrchir hyn mewn nifer o feysydd sy'n datblygu, er enghraifft Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rhanbarthau dinesig, ac wrth gwrs, cynllunio adnoddau naturiol.

***Argymhelliad 6.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Panel Sector Ynni a'r Amgylchedd yn cynrychioli pob math o ynni adnewyddadwy yn y dyfodol, gan gynnwys ynni Morol a dylai barhau i ddefnyddio ei arbenigedd i lywio polisïau a mentrau yn y dyfodol.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Panel Sector Preifat Ynni a'r Amgylchedd yn cynnig safbwyntiau, gwybodaeth a phrofiad er mwyn rhoi cyngor ar gyfer ein dull gweithredu. Mae ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni'r môr, yn un o'r pum thema blaenoriaeth a nodir ganddynt.

Mae cynrychiolaeth dda o brofiad yn y sector ynni adnewyddadwy ar y Panel. Kevin McCullough, Cadeirydd Panel y Sector yw Prif Swyddog Gweithredol RWE npower. Mae cynllunio, adeiladu a chyfleusterau gweithredu sy'n cynhyrchu pŵer o ynni adnewyddadwy yn rhan greiddiol o fusnes y cwmni, sy'n cynnwys nifer o ffermydd gwynt ar y tir ac ar y môr, a chynlluniau ynni dŵr.

Mae cwmni David Williams, Eco2 Ltd, yn arbenigo mewn dechrau, datblygu, ariannu a gweithredu prosiectau ynni adnewyddadwy hyd a lled y DU ac Ewrop, gan gynnwys cefnogi Tidal Energy Limited yn Sir Benfro i ddatblygu DeltaStream – technoleg arloesol a ddefnyddir i gynhyrchu pŵer trydanol gan ddefnyddio adnoddau llif y llanw.

Gerry Jewson yw Cadeirydd a Phrif Weithredwr West Coast Energy Group, un o'r datblygwyr ynni adnewyddadwy annibynnol mwyaf blaengar yn y DU.

Mae Alan Proctor wedi bod mewn amrywiaeth o swyddi gweithredol ac anweithredol yn y sector cyhoeddus a phreifat. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol i ynni adnewyddadwy yw ei gyfnod fel Cadeirydd Rhead International. Mae rhan sylweddol o'r busnes yn canolbwyntio ar adeiladu prosiectau ynni adnewyddadwy.

Mae John Idris Jones wedi cael ei benodi'n Gyfarwyddwr y Rhaglen Ynys Ynni.

Ac mae Nigel Annett wedi bod yn Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru Welsh Water er 2005.

***Argymhelliad 7****. Dylai Llywodraeth Cymru drefnu ac ariannu rhaglen i wella'r lefel o ymgysylltu â'r cyhoedd, o rymuso'r cyhoedd ac o drafodaeth wleidyddol am dechnolegau adnewyddadwy.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy fel ein hegwyddor graidd yn golygu ein bod ni wedi ymrwymo i ymgysylltu'n effeithiol, gan geisio gweithio gyda phobl Cymru i sicrhau bod y rhai hynny y mae penderfyniadau'n effeithio arnynt yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniadau hynny.

Rydym wedi ymrwymo i drosglwyddo i gymysgedd ynni carbon isel, a bydd hyn ond yn bosibl pan fydd y technolegau a'r seilwaith wedi cael eu datblygu mewn ffyrdd a fydd o fudd i bobl yng Nghymru nawr ac yn y tymor hir. Rydym eisoes wedi cynnig cymorth sylweddol i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar dechnolegau ynni adnewyddadwy, er enghraifft drwy gynllun Ynni'r Fro.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, ond byddem yn gobeithio cyflawni hyn yn ymarferol drwy ymgysylltu parhaol, sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau pobl. Dylid cynnwys materion technolegau adnewyddadwy yn y trafodaethau ehangach ynghylch y cynlluniau ar gyfer pob rhanbarth, a'r penderfyniadau ynghylch y dyfodol y mae pobl am eu gweld ar gyfer y llefydd y maent yn byw ynddynt.

***Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hachos dros ddatganoli ymhellach bwerau cydsynio ynni a rhoi cymhellion ariannol.***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn bwriadu darparu gwybodaeth am yr achos dros ddatganoli pwerau cydsynio ynni a rhoi cymhellion ariannol ar wefan Llywodraeth Cymru. Dyma saith prif faes achos Llywodraeth Cymru dros bwerau pellach:-

- Pryderon ynghylch cyflawni targedu ynni adnewyddadwy'r UE/DU.
- Cysondeb â gweinyddiaethau datganoledig eraill.
- Rheoli effaith ynni adnewyddadwy ac ymateb i bryderon a gwrthwynebiadau'r cyhoedd.
- Buddion i'r gymuned ac ecsbloetio. Mae penderfyniadau cydsynio a wneir yn Llundain, sy'n effeithio ar gymunedau Cymru, yn peri risg y gellid barnu bod rhai datblygiadau ynni yn ecsbloetio.
- Atebolrwydd a lleoliaeth.
- Cydlynu â pholisi cynllunio – canlyniadau cymhwysedd rhanedig.
- Cysondeb a hygrededd ar gyfer buddsoddwyr.

***Argymhelliad 9****. Fel rhan o'i hachos, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno proses lle mae Cyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystyried prosiectau seilwaith ynni mawr yng Nghymru, ond y dylai wneud ei hargymhellion terfynol i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i Weinidogion y DU yn y dyfodol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Nid yw hyn o fewn cwmpas Llywodraeth Cymru. Rydym yn dal i gredu y dylai pwerau gweithredol i roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd pŵer mawr o dan y Ddeddf Trydan fod yn fater i Weinidogion Cymru. Gweinidogion y DU sy'n

gwneud penderfyniadau ar geisiadau o’r fath o dan y trefniadau presennol, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl yn y broses o wneud penderfyniadau. Er ein bod yn croesawu’r ffaith bod polisi cynllunio Cymru yn cael ei gydnabod yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol, mae’n amlwg nad oes raid i Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol na Gweinidogion y DU wneud penderfyniadau yn unol â’n polisi yng Nghymru. Mae cefnogaeth drawsbleidiol i ddatganoli pwerau ynni ymhellach. Rydym yn parhau i bwyso am ddatganoli cydsyniadau ar gyfer gorsafoedd pŵer mawr a chydsyniadau cysylltiedig ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ar y tir ac ar y môr i Gymru. O'r dystiolaeth a gasglwyd gan y pwyllgor, mae’n amlwg bod eraill o'r un farn hefyd.

***Argymhelliad 10. Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod mecanweithiau’r farchnad a gynigir gan Ddiwygiadau Llywodraeth y DU i’r Farchnad Drydan yn cael eu rhoi ar waith yn fwy tryloyw ac yn gynt a sicrhau sefydlogrwydd yn y tymor hirach drwy gadarnhau’r newidiadau i’r gyfundrefn Tystysgrifau Ymrwymiad i Ynni Adnewyddadwy y tu hwnt i 2017 cyn gynted â phosibl.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio’r Farchnad Drydan o’r dechrau. Mae Gweinidogion yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am ateb teg i’r sefyllfa bresennol lle mae Cymru yn colli allan o dan yr Ymrwymiad i Ynni Adnewyddadwy o gymharu â rhannau eraill y DU, ac am ateb tymor hwy o dan Ddiwygiadau’r Diwydiant Trydan sy’n darparu mecanwaith gefnogi gryfach a thecach ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Rydym yn cytuno y dylai’r diwygiadau fod yn addas i’r pwrpas, o ran egwyddor a manylion, ac y dylid eu rhoi ar waith yn gyflym er mwyn sicrhau hyder buddsoddwyr sector preifat pwysig. Ym mis Gorffennaf, cododd y Prif Weinidog bryderon unwaith yn rhagor gyda Llywodraeth y DU ynghylch effaith yr oedi o ran cyhoeddi lefelau band Ymrwymiadau i Ynni Adnewyddadwy ar hyder buddsoddwyr yng Nghymru.

***Argymhelliad 11****. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i helpu i ganfod a sicrhau datblygwyr amgen i ddatblygu cynigion ar gyfer adweithydd niwclear newydd yn Wylfa B.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru, o dan Dîm Cymru, yn parhau i weithio gydag Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU, Horizon Nuclear Power a Chyngor Sir Ynys Môn i chwilio am fuddsoddwyr newydd ar gyfer safle Wylfa. Mae'r Ddogfen Ynni Cymru, Mawrth 2012, yn datgan ein hymrwymiad yn gryf i ddatblygu Wylfa B ac Ynys Ynni Ynys Môn.

***Argymhelliad 12.*** *Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i annog gwell cymysgedd o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy o dan 50 Megawat ar draws yr ystod*

*Iawn o fathau o dechnoleg a chynnwys cymaint o gynlluniau yn y gymuned â phosibl.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer cynllunio pob math o ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn strategol. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gydsynio prosiectau o dan 50 megawat. Ym mis Gorffennaf y llynedd, ysgrifennodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy at yr holl awdurdodau lleol i gynnig cyfeiriad i helpu i symleiddio'r system bresennol a chael dull mwy cyson o weithredu. Rydym wedi sicrhau bod cymorth ymarferol ac ariannol ar gael i helpu mentrau bychan a chanolig eu maint yng Nghymru i elwa ar ynni adnewyddadwy. Ynni'r Fro yw ein prosiect cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol, sy'n rhoi cyngor technegol a chymorth ariannol cychwynnol i gymunedau.

***Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cynigion yn yr adolygiad o Drwyddedau Ymrwymiad i Ynni Adnewyddadwy ar gyfer 5 Trwydded ar gyfer prosiectau ynni'r tonnau ac ynni'r llanw'r môr yng Nghymru yn cael eu gweithredu, er mwyn i Gymru gael yr un chwarae teg â'r Alban.***

**Ymateb: Derbyn**

Er gwaethaf ei hadnoddau naturiol rhagorol, mae Cymru yn parhau i fod ar y cyrion gan nad yw'n gallu cynllunio a hybu buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy mewn dull amserol a phriodol, yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon. Yn ystod y cyfnod hwn o newid hyd at 2017, mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon yr hawl i benderfynu beth sy'n cael ei adeiladu ac ym mhle, gyda'u pwerau cynllunio datganoledig eu hunain, a hefyd mae ganddynt yr hawl i benderfynu ar eu lefelau o gymorth Ymrwymiadau i Ynni Adnewyddadwy eu hunain er mwyn annog buddsoddi.

Er ein bod yn croesawu 5 Trwydded Ymrwymiad i Ynni Adnewyddadwy Morol cyffredin i'r DU ar gyfer llif llanw a thonnau o 2013, fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn ddiweddar, ac er bod hynny'n mynd i'r afael â phryderon a godwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru am gael bod yn gyfartal â Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, mae'n bosibl bod tuedd o blaid Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy o hyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am bwerau cyfartal â gweinyddiaethau eraill, o ran ei chynllun Ymrwymiadau i Ynni Adnewyddadwy ei hun yn ystod y cyfnod o newid i Dariff Cyflenwi Trydan gyda Chontractau ar gyfer Gwahaniaethau a rhagor o bwerau cynllunio ynni.

***Argymhelliad 14.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Banel y Sector Ynni a'r Amgylchedd i'w chynghori ar y ffordd orau o fanteisio ar gyfle'r cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi darpariaeth seilwaith strategol ar gyfer y sector ynni yng Nghymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae panel y sector wedi cynghori'r Llywodraeth bod angen canolbwyntio adnoddau ar fynediad at gyllid, ac mae hyn yn elfen allweddol o fframwaith y sector Ynni a'r Amgylchedd. Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod y rôl bwysig y gall cronfeydd strwythurol ei chwarae o ran cyflawni prosiectau strategol allweddol a galluogi i'r sector dyfu.

Wrth fwrw ymlaen, bydd y panel yn rhoi cyngor pellach i'r Llywodraeth ynghylch sut y gellir manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn i Gymru, ar y cyd â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

***Argymhelliad 15.*** *Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gefnogi arloesedd, ymchwil a datblygiad, yn enwedig yn niwydiant newydd ynni'r tonnau/ynni'r llanw a dylai roi rhagor o anogaeth i gydweithio rhyngwladol a byd-eang ym meysydd ymchwil a gweithgarwch arloesi sy'n ymwneud â thechnolegau ynni adnewyddadwy newydd.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod arloesi yn flaenoriaeth i'r sector. Mae strategaeth arloesi newydd yn cael ei datblygu, a fydd yn adeiladu ar yr egwyddorion y mae galw amdanynt yng Ngwyddoniaeth ar gyfer Cymru, ein strategaeth wyddoniaeth genedlaethol, a chynnwys rhagor o fanylion mewn cynlluniau. Drwy adeiladu ar Wyddoniaeth ar gyfer Cymru, nod benodol y strategaeth arloesi fydd gwneud y defnydd gorau posibl o droi ymchwil a datblygiad mewn addysg uwch ac addysg bellach, yn arloesi masnachol yn niwydiant Cymru. Bydd yn sicrhau ein bod yn cefnogi arloesi yn ei ystyr ehangaf.

Mae hyn, yn ogystal â Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru, a oedd yn nodi sut y gall Cymru fanteisio i'r eithaf ar ei photensial ymchwil rhyngwladol drwy ganolbwyntio ar feysydd cryf a denu academyddion disglair, yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydnabod y cysylltiadau hanfodol rhwng sgiliau gwyddoniaeth ac ymchwil yng Nghymru, a phrosesau arloesi, datblygu a masnacheiddio a all drawsnewid allbynnau gwyddonol ymchwil yn fantais economaidd i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi nifer o brosiectau yn y diwydiant tonnau/llanw newydd a bydd yn parhau i wneud hynny.

***Argymhelliad 16.*** *Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n fanwl cyn diwedd 2012 sut bydd yr Ardaloedd Menter ynni yn gweithredu a'r cymhellion ariannol a chynllunio a fydd yn cael eu cynnig.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Ym mis Gorffennaf 2012 rhoddodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Ddatganiad Llafar er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf ynghylch cyflwyno Ardaloedd Menter yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys

manylion am adlinio’r hyn sy’n dylanwadu ar bolisïau a chymorth ym mhob Ardal Fenter. Bydd yr union ddulliau sy’n dylanwadu ar bolisïau a fydd yn cael eu blaenoriaethu ym mhob Ardal Fenter yn dibynnu i raddau helaeth ar ddisgresiwn, grym a mewnbwn lleol. Mae pob Bwrdd Ardal Fenter yn arwain ar hyn. Tasg y Byrddau yw datblygu cynllun strategol ar gyfer pob Ardal Fenter, gan nodi’r weledigaeth ar gyfer eu hardal, y prif flaenoriaethau, y seilwaith a gofynion eraill. Byddem yn rhagweld y bydd gan bob Bwrdd Ardal Fenter ei gynllun strategol mewn da bryd cyn diwedd y flwyddyn galendr.

***Argymhelliad 17**. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i annog awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi ar gyfer y Fargen Werdd, gan ddefnyddio enghreifftiau o arferion da yn Lloegr fel esiampl.*

**Ymateb: Derbyn**

Ym mis Tachwedd 2011, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiwrnod ar y cyd i sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru’n ymwybodol o’r Fargen Werdd a’r cyfleoedd posibl sydd ar gael iddynt. Cynhaliodd sawl sefydliad nifer o seminarau tebyg ledled Cymru, a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol.

Yn dilyn trafodaethau cynnar, sicrhaodd Llywodraeth Cymru fod nifer o awdurdodau lleol blaengar yng Nghymru wedi cael mynediad at Grŵp Arloeswyr Cyllid yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae’r grŵp hwn yn cynnwys awdurdodau lleol sy’n arwain ar fodelau’r Fargen Werdd yn bennaf, ac mae wedi galluogi i awdurdodau Cymru gael mynediad at yr arbenigedd a’r farn sydd ar gael.

Yn ystod y flwyddyn gyfredol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfres o seminarau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i wneud y gorau o'r Fargen Werdd, a hynny drwy'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Mae’r gyfres, sy’n dechrau ym mis Gorffennaf, yn cynnwys tair seminar yn y gogledd a thair yn y de, er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddeall y swyddogaethau posibl y gallent eu cael yn y Fargen Werdd ac i'w helpu gyda'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r gyfres yn adeiladu ar enghreifftiau o arfer da o brosiectau yn Lloegr.

***Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i fesur effaith economaidd ffermydd gwynt a’r seilwaith grid cysylltiedig ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae amrywiaeth eang o ffactorau yn dylanwadu ar y diwydiant twristiaeth, nad ydynt yn ymwneud â datblygu ffermydd gwynt. Mae gwaith ymchwil blaenorol a wnaed i effaith ffermydd gwynt ar dwristiaeth yng Nghymru wedi dangos nad yw ffermydd gwynt yng nghefn gwlad yn effeithio’n sylweddol ar benderfyniad y rhan fwyaf o ymwelwyr i ddychwelyd i Gymru ar eu gwyliau, a

chanfyddiad cyffredin mewn nifer o arolygon eraill yw bod y cyhoedd yn dymuno cael gwybod rhagor am ffermydd gwynt ac ynni adnewyddadwy.

Mae astudiaethau a gynhaliwyd mewn mannau eraill yn dangos mai bychan yw effaith ffermydd gwynt ar dwristiaeth os ydynt wedi cael eu dylunio'n addas a chael eu gosod mewn modd sensitif, ac nad oes rheswm dros gredu bod targedau ynni adnewyddadwy a thwristiaeth yn anghydnaws. Mae hyn yn cynnwys ymchwil yn 2005 gan Brifysgol St Andrews a ymchwiliodd i nifer o ffermydd gwynt yng Ngororau'r Alban ac yn Ne orllewin Iwerddon - dau ranbarth pwysig i dwristiaid. Daeth yr ymchwil i'r casgliad na wireddwyd pryderon ynghylch effeithiau negyddol, gyda nifer o bobl yn ystyried y ffermydd gwynt yn ychwanegiad cadarnhaol hyd yn oed. Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban adroddiad a oedd yn ymchwilio i effaith economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth yn yr Alban. Daeth i'r casgliad y disgwylir i'r effaith fod yn fychan iawn, a ddim yn amlwg iawn yn y rhan fwyaf o'r achosion.

Er yr ymchwil y cyfeirir atynt uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil ar effaith economaidd ffermydd gwynt a'r seilwaith grid cysylltiedig ar y diwydiant twristiaeth fel rhan o'i rhaglen ymchwil yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn ystyried ymchwilio i agweddau at ddatblygu ffermydd gwynt yn ein rhaglen ymchwil gyfredol ynghylch twristiaeth drwy gynnwys cwestiynau penodol yn ein harolygon defnyddwyr ac arolygon busnesau twristiaeth.

***Argymhelliad 19. Er mwyn ategu Ynni Cymru: Newid Carbon Isel a'r rhaglen ynni gysylltiedig, dylai Llywodraeth Cymru lunio Cynllun Gweithredu manwl erbyn diwedd 2012 gyda manylion y camau penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac eraill i gyflawni'r targedau ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy.***

***Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad monitro blynyddol sy'n nodi cynnydd tuag at dargedau ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy a dylai hyn gynnwys esboniad o'r rhesymau dros unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r targedau hyn y gallai eu gwneud.***

*Argymhelliad 21. Fel rhan o'r cynllun gweithredu manwl (gweler argymhelliad 19) uchod, dylai Llywodraeth Cymru:*
*– ddarparu gwybodaeth gadarn am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy cyfredol ac arfaethedig yng Nghymru;*
*– adolygu targed 2025 ar gyfer ynni'r tonnau/ynni'r llanw;*
*– egluro'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y targed 300 megawat ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir rhwng 5 a 25 megawat y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a sut bydd hyn yn cael ei fonitro;*
*– ystyried yr angen am darged tymor hirach ar gyfer gwynt ar y môr y tu hwnt i 2015/16.*

**Ymateb i argymhellion 19, 20 a 21: Derbyn yn Rhannol**

Mae Rhaglen Ynni Cymru wedi cael ei pharatoi a bydd cynlluniau gweithredu sy'n cynnwys manylion pellach yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd 2012.

Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu set ddata sy’n disgrifio’r datblygiadau ynni adnewyddadwy presennol ac arfaethedig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn archwilio pob ffynhonnell ddata i weld a ydynt yn darparu gwaelodlin ar gyfer rhoi gwybod am gynnydd yn rheolaidd, o ran capasiti a’r buddion cynaliadwy a geir. Drwy’r ymchwiliadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu'r mesurau cynnydd priodol a’r dulliau adrodd.

Mae Ynni Cymru: Newid Carbon Isel yn nodi uchelgais i newid i ddulliau carbon isel mewn ffordd sy’n darparu’r budd cynaliadwy gorau i Gymru. Nid yw’n gosod targedau o ran canrannau na chapasiti technolegau adnewyddadwy gan mai Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am gydsynio a chymhellion cynlluniau ynni ar raddfa fawr (dros 50megawat ar y tir a dros 1 megawat ar y môr). O ganlyniad i’r diffyg rheolaeth uniongyrchol hon, mae Ynni Cymru: Newid Carbon Isel yn canolbwyntio ar ddarparu buddion cynaliadwy i Gymru yn hytrach na gosod targedau o ran canran neu gapasiti unrhyw dechnoleg adnewyddadwy.

Mae 'Chwyldro Carbon Isel' (2010) yn nodi dangosyddion ar gyfer potensial cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru, a byddwn yn parhau i fonitro, gyda’r nod o wneud y defnydd priodol gorau posibl o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn llwyddiannus yn unol â’r dyheadau hyn. O ystyried y sylwadau uchod, nid oes unrhyw gynlluniau i newid y dyheadau hyn ar hyn o bryd.

***Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru dreialu cyflwyniad system sy’n integreiddio systemau cynllunio a chaniatáu amgylcheddol yn well yng Nghymru cyn cyflwyno system newydd yn llawn ym mis Ebrill 2013. Dylai system o’r fath fod yn ddigon hyblyg i gynnig dewis o ran pa lwybr caniatáu sy’n fwyaf addas ar gyfer pob prosiect.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym wedi ymrwymo i symleiddio’r systemau cynllunio a chaniatáu amgylcheddol cyn gynted ag y bo modd, boed hynny drwy ddulliau cyflwyno sylfaenol, eilaidd neu arall. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod y berthynas rhwng y systemau hyn yn cael ei rheoli mewn modd mor effeithiol â phosibl.

***Argymhelliad 23.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithredu gwelliannau i’r systemau cynllunio a chydsynio cyfredol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy hyd at 50 Megawat sy’n deillio o adroddiad Hyder, nad oes angen deddfwriaeth newydd ar eu cyfer, cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Ebrill 2013 fan bellaf.*

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi cyhoeddi canfyddiadau ymchwil Hyder fel rhan o gyfres o dystiolaeth ar gyfer y Papur Gwyn ar Gynllunio. Byddwn yn ystyried yr argymhellion ac yn adnabod mesurau ar gyfer y tymor byr a’r tymor hir i

wella’r broses gydsynio ar gyfer prosiectau o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.

***Argymhelliad 24****. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu siop un stop ar gyfer cyngor i fusnesau a grwpiau cymunedol i’w helpu drwy’r prosesau cynllunio/cydsynio ynni adnewyddadwy. Gallai’r tîm ynni adnewyddadwy canolog (gweler argymhelliad 31) ddarparu hyn.*

**Ymateb Diwygiedig: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Ynni'r Fro i ddarparu cymorth, cyngor a chyllid i sefydliadau cymunedol sy’n datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad i helpu grwpiau cymunedol drwy’r broses gydsynio ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y posibilrwydd o gael cyllid ar gyfer ceisiadau cynllunio.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ar brosesau cynllunio a chydsynio i fusnesau ar gais ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried/ymchwilio i ffyrdd o'i gwneud yn haws i fusnesau a grwpiau cymunedol gael mynediad at yr wybodaeth a'r unigolion priodol yn Llywodraeth Cymru.

***Argymhelliad 25.*** *Dylai Llywodraeth Cymru lunio canllawiau wedi’u targedu pellach ar sut i asesu effaith gronnol ffermydd gwynt ar y tir yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol (mae paragraff 12.8.2 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y bydd yn ystyried llunio canllawiau wedi’u targedu pellach).*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn. Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 eisoes yn cynnwys arweiniad ar y mater hwn, ond byddwn yn pwyso a mesur a oes angen arweiniad pellach.

***Argymhelliad 26****. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ail gyfnod ymchwil Hyder yn ystyried ceisiadau ynni na chafwyd penderfyniad yn eu cylch eto, ynghyd â’r rhai y penderfynwyd yn eu cylch eisoes.*

**Ymateb: Gwrthod**

Diben ymchwil Hyder yw gwerthuso a nodi rhwystrau yn y broses bresennol ar gyfer cynlluniau sydd wedi mynd drwy’r broses gynllunio – adolygiad o’r dechrau i’r diwedd o’r cyflwyno i’r penderfynu, a’u rhoi ar waith yn y pen draw. Mae gan Weinidogion Cymru rôl statudol yn y broses gynllunio, ac mae posibilrwydd y gallai apêl cynllunio ddod gerbron Gweinidogion Cymru rywbryd. Felly, nid ydym yn credu ei bod yn briodol bod yr astudiaethau achos yn defnyddio ceisiadau cynllunio byw. Rydym yn hyderus mai’r materion a’r rhwystrau a nodwyd mewn cynlluniau presennol yw'r rhai hynny y mae cynlluniau byw yn eu hwynebu yng Nghymru.

***Argymhelliad 27****. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gofyniad fel mai un datganiad amgylcheddol sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cynllunio a chaniatáu amgylcheddol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes cyfleoedd i gyflwyno un datganiad amgylcheddol at ddibenion cynllunio a chaniatáu amgylcheddol fel rhan o'i gwaith o ddatblygu'r Bil Cynllunio a Bil yr Amgylchedd. Cyn y Biliau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod y berthynas rhwng y prosesau hyn yn cael eu rheoli mewn modd mor effeithiol â phosibl.

***Argymhelliad 28.*** *Fel rhan o amlinellu'r achos dros ddatganoli pellach (gweler argymhelliad 8), dylai Llywodraeth Cymru gynnig bod unrhyw ddatblygiad cysylltiedig hefyd yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r prif brosiect gan Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol o dan unrhyw drefniadau newydd.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym yn derbyn y cynnig y dylid ystyried unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig ochr yn ochr â chais y prif brosiect mewn egwyddor, er y byddai'r manylion ynghylch sut y byddai hynny'n gweithio'n ymarferol yn dibynnu ar y dull o ddatganoli'r broses gydsynio datblygiadau ynni mawr.

***Argymhelliad 29****. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu argymhellion y Pwyllgor a wnaed yn ei adroddiad ar yr achos busnes dros Un Corff Amgylcheddol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r argymhelliad hwn yn cyfeirio at ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'r achos busnes ar gyfer Un Corff Amgylcheddol.

Gwnaed 4 argymhelliad yn eu hadroddiad, dyddiedig 27 Ebrill 2012, ac ymatebodd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:
Argymhelliad 1 - Derbyn
Argymhelliad 2 - Gwrthod
Argymhelliad 3 - Derbyn
Argymhelliad 4 - Derbyn

Rhoddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 1 Mehefin 2012 a dyma yw'r ymateb i'r argymhelliad hwn.

***Argymhelliad 30.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a fydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn parhau i fod yn gymwys ar ôl ei ddisodli gan Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol.*

**Ymateb: Derbyn**

Er bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cael rhagor o bwerau cydsynio ynni, nid yw'n debygol y bydd hyn yn cael ei wireddu yn y tymor byr. Felly, ystyrir ei bod yn briodol y dylid diweddaru'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y cyd â Chyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol, yr Arolygiaeth Gynllunio.

***Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tîm canolog ag arbenigedd penodol mewn technolegau ynni adnewyddadwy. Dylai'r tîm hwn fod ar gael i awdurdodau cynllunio lleol i'w cynorthwyo i ymdrin â cheisiadau cynllunio ac ymgynghoriadau Deddf Cynllunio 2008, yn enwedig er mwyn helpu'r awdurdodau hynny i ymdrin â cheisiadau sy'n ymwneud â thechnolegau newydd.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu cymorth i awdurdodau cynllunio lleol a darparu cymorth ariannol uniongyrchol o ran cymorth technegol ar gyfer prosiectau mawr, lle nad ydynt yn derbyn unrhyw incwm ffi. Hefyd, rydym yn ystyried goblygiadau sefydlu Bwrdd Cynghori a Gwella ar gyfer y maes Cynllunio fel rhan o'r gwelliannau parhaus i'r system gynllunio. Mae arnom angen ystyried yn fanylach a fyddai tîm canolog o arbenigwyr wedi'u neilltuo yn fwy effeithiol na chael arbenigwyr y gellid eu galw yn ôl y gofyn.

***Argymhelliad 32****. Hyd nes y sefydlir y tîm canolog, dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cymorth grant i awdurdodau cynllunio lleol i'w cynorthwyo i brynu arbenigedd technegol.*

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2010/11 fe wnaethom gyflwyno cynllun peilot i ddarparu cymorth ariannol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gaffael yr adnoddau a'r sgiliau angenrheidiol i benderfynu ar geisiadau cynllunio cymhleth. Galluogodd y cynllun awdurdodau cynllunio lleol i ymgymryd â gwaith technegol er mwyn bod yn sail i benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU ar ffermydd gwynt mawr (50MW+) yn Ardaloedd Chwilio Strategol Nodyn Cyngor Technegol 8. Ers ei gyflwyno yn 2010-11, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido cynlluniau gwerth £152,000 mewn meysydd fel datblygiadau gwastraff ac ynni adnewyddadwy.

***Argymhelliad 33****. Dylai Llywodraeth Cymru annog datblygiad gwaith rhanbarthol a rhannu arbenigedd.*

**Ymateb: Derbyn**

Drwy ein Cronfa Gwella Cynllunio, rydym yn annog awdurdodau cynllunio lleol i weithio gydag awdurdodau cyfagos ar hwyluso ynni adnewyddadwy yn eu hardaloedd. Mae polisïau a chanllawiau cynllunio eisoes yn annog hyn. Byddwn yn adeiladu ar yr argymhelliad hwn ac yn ei ddatblygu drwy'r Papur Gwyn ar Gynllunio.

***Argymhelliad 34**. Fel rhan o'i hadolygiad cyfredol o'r system gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno terfyn ar ffioedd ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a arweinir gan y gymuned.*

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'n rhaid i ni wrthod yr argymhelliad hwn am resymau technegol. Rydym yn rhagweld y bydd yn peri anawsterau i awdurdodau lleol o ran penderfynu beth a olygir gan gynlluniau a arweinir gan y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn hwyluso prosiectau a arweinir gan y gymuned drwy gynllun Ynni'r Fro ac mae cymorth ariannol hael, y gellir ei ddefnyddio i dalu ffioedd cynllunio, eisoes ar gael i brosiectau a arweinir gan y gymuned. Hefyd, pan wneir ceisiadau gan neu ar ran cynghorau plwyf, tref a chymuned o dan y darpariaethau presennol, mae'r ffi cynllunio yn hanner y ffi arferol ar gyfer cais. Felly, rydym yn credu bod cymorth eisoes ar gael drwy lwybrau eraill.

***Argymhelliad 35**. Dylai Llywodraeth Cymru annog defnydd pellach o gytundebau perfformiad cynllunio gyda datblygwyr fel ffordd amgen o ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer ymdrin â phrosiectau ynni mawr (e.e. fel y cytunwyd rhwng Cyngor Ynys Môn a Horizon Nuclear Power).*

**Ymateb: Derbyn**

Gall Cytundebau Perfformiad Cynllunio fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod ceisiadau cynllunio'n cael eu prosesu yn brydlon, ac rydym yn annog pobl i'w defnyddio. Fodd bynnag, mae'r cytundebau'n cael eu llunio rhwng awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr, a rôl gyfyngedig iawn sydd gan Lywodraeth Cymru yn y contractau a gytunir.

***Argymhelliad 36**. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tîm ynni wedi'i neilltuo o fewn y Corff Adnoddau Naturiol a sicrhau bod gan y tîm ddigon o adnoddau a ffocws i ymdrin â'i rôl ddeuol fel ymgynghorai statudol a chorff sy'n rhoi caniatâd amgylcheddol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Fel Llywodraeth, rydym wedi nodi arwyddocâd datblygu ynni fel a welir yn *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*. Disgwyliaf i'r corff sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno *Ynni Cymru* a gallu ymdrin â materion ynni'n effeithlon yn unol â'r flaenoriaeth. Fodd bynnag, mater i reolwyr y corff newydd fydd penderfynu ar fanylion y trefniadau a fydd ar waith i alluogi hynny. Mae rôl ddeuol y corff fel ymgynghorai ac awdurdod rheoleiddio yn berthnasol i nifer o feysydd yn ei gylch gwaith ac mae camau'n cael eu dilyn i sicrhau y bydd yn gallu cyflawni'r ddwy rôl mewn modd effeithiol a thryloyw.

***Argymhelliad 37. Fel rhan o'i hadolygiad cyfredol o'r system gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gall fynd ati'n gyflym i ddarparu fframwaith polisi cynllunio lleol neu ranbarthol cyson ar gyfer***

***penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ynni adnewyddadwy neu ynni arall y gall cymunedau lleol ei ddeall ac ymgysylltu'n gyson ag ef.***

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Papur Gwyn ar Gynllunio yn rhoi sylw i'r mater hwn.

***Argymhelliad 38.*** *Yn dilyn ei hymgynghoriad diweddar ar 'ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy', dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru erbyn diwedd 2012 er mwyn rhoi mwy o bwys i bolisïau cynllunio cenedlaethol o dan amgylchiadau lle nad oes cynlluniau datblygu cyfoes ar waith.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae argraffiad newydd o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5) wedi cael ei gyhoeddi, ac mae'n cryfhau ac yn egluro'r rhagdybiaeth o blaid datblygiadau cynaliadwy yn y system gynllunio. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am gynlluniau datblygu sydd wedi cael eu mabwysiadu, ac mae'n cynghori Awdurdodau Cynllunio Lleol i roi llai o bwyslais ar bolisïau sydd wedi dyddio neu wedi cael eu disodli a mwy o bwyslais ar ystyriaethau perthnasol eraill fel y polisi cynllunio cenedlaethol.

***Argymhelliad 39.*** *Yn y tymor byr, dylai Llywodraeth Cymru annog grwpiau unigol neu ranbarthol o awdurdodau cynllunio lleol i roi blaenoriaeth i baratoi Asesiadau o Ynni Adnewyddadwy yn seiliedig ar gyfarwyddyd ymarfer Llywodraeth Cymru, hyd yn oed os yw'r Cynlluniau Datblygu Lleol eisoes wedi'u datblygu cryn dipyn.*

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2011-12, fe wnaethom roi cyfanswm o £140K i 11 Awdurdod Cynllunio Lleol i gyflawni asesiadau ynni adnewyddadwy lleol yn rhannol neu yn llawn yn unol â'r Pecyn Cymorth ar gyfer Ynni Adnewyddadwy. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Gynlluniau Datblygu Lleol newydd neu yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses o adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi cael eu mabwysiadu yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried sut y gall y gefnogaeth hon barhau fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r system gynllunio yng Nghymru.

***Argymhelliad 40.*** *Lle nad oes cynllun datblygu cyfoes, dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau cynllunio lleol i baratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ffurfiol, ar ddatblygiad ynni adnewyddadwy yn eu hardaloedd, gan adeiladu ar eu Hasesiadau o Ynni Adnewyddadwy.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym yn derbyn bod angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol gael arweiniad polisi cyfredol. Fodd bynnag, mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn atodol i gynlluniau datblygu ac ni fyddai'n bosibl creu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny heb Gynllun Datblygu. Ein barn

gadarn ni yw bod yn rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol a rhaid i'r rhain roi sylw i faterion sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Byddwn yn parhau i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol i baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

***Argymhelliad 41****. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd y Cynllun Adnoddau Naturiol arfaethedig yn cael ei integreiddio gydag unrhyw newidiadau a wneir i'r system cynllun datblygu a beth yw'r cysylltiad rhwng y cynllun newydd hwn a Chynllun Gofodol Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn ystyried opsiynau eraill ar gyfer datblygu cynllunio adnoddau naturiol ar hyn o bryd, a sut y mae hynny'n berthnasol i bolisïau ehangach Llywodraeth Cymru, y system gynllunio a Chynllun Gofodol Cymru, a sut y mae'n cydblethu â hynny.

***Argymhelliad 42. Ar ôl cwblhau'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i drawsnewid yn llwyr y system gynllunio yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen iddi ddiwygio ei pholisïau cynllunio ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy.***
***Wrth bwyso a mesur hyn, dylai ystyried:***
***– canlyniad yr ôl-groniad cyfredol o geisiadau ffermydd gwynt ar y tir nad oes penderfyniadau wedi'u gwneud yn eu cylch;***
***– y cynnydd sydd wedi'i wneud yn gweithredu pob math arall o ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cylch cyfredol o gynigion am ffermydd gwynt ar y môr;***
***– y Cynllun Adnoddau Naturiol newydd ar gyfer Cymru.***

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2011, fe wnaethom gyhoeddi diweddariad i'n polisi Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru. Bydd nifer o'r newidiadau a ddaw i'r amlwg drwy'r Papur Gwyn ar Gynllunio a'r Bil yn y pen draw, yn ceisio gwella'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy. Byddwn yn parhau i adolygu Polisi Cynllunio Cymru i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

***Argymhelliad 43****. Fel rhan o adroddiad monitro blynyddol sy'n nodi cynnydd tuag at y targedau ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy (gweler argymhelliad 20), dylai Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad manwl o gynnydd yn y gwaith o ddatblygu ynni gwynt ar y tir ar gyfer pob Ardal Chwilio Strategol, o gymharu â'u lefelau capasiti uchaf.*

**Ymateb: Derbyn**

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi diweddariad ar gyflwyno ynni gwynt o fewn yr Ardaloedd Chwilio Strategol. Byddwn yn parhau i gasglu'r wybodaeth hon ac yn ystyried cynnwys hyn yn adroddiad monitro blynyddol Cynlluniau

Datblygu Lleol yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny sydd ag Ardaloedd Chwilio Strategol.

***Argymhelliad 44. Fel rhan o weithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid i ryddhau'r ôl-groniad o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir (gweler argymhelliad 2), dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio'n benodol ar ddatrys y materion trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r cyfryw ddatblygiadau.***

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Renewables UK a datblygwyr i ddatblygu eu Cynlluniau Rheoli Traffig ar gyfer yr Ardaloedd Chwilio Strategol.

***Argymhelliad 45. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu a darparu cymorth i randdeiliaid fel y gallant fynd ati ar fyrder i gyhoeddi'r cynllun strategol ar reoli trafnidiaeth hirddisgwyliedig ar gyfer y Canolbarth, cyn gweithredu cynlluniau tebyg ar gyfer pob un o'r Ardaloedd Chwilio Strategol. Dylai sicrhau yr ymgynghorir â'r holl gymunedau hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynlluniau hyn.***

**Ymateb: Derbyn**

Y datblygwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu Cynlluniau Rheoli Traffig. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r datblygwyr i ddatrys y materion sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau hynny.

***Argymhelliad 46.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth asesiad cyflym o effaith economaidd symudiadau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â datblygiadau ffermydd gwynt yn y Canolbarth, fel yr argymhellwyd yn wreiddiol gan Capita Symonds. Dylid cwblhau'r astudiaeth hon erbyn mis Ebrill 2013 fan bellaf.*

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'r argymhelliad yn cyfeirio at astudiaeth gan gontractwyr allanol i Lywodraeth Cymru, a gwblhawyd yn 2008. Ers i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer iawn o waith, yn enwedig yn rhinwedd ei rôl ymgynghorol ar Gynlluniau Rheoli Trafnidiaeth Strategol, i leihau effeithiau posibl symudiadau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â datblygiadau ffermydd gwynt. Ar hyn o bryd, mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn brysur yn gweithio gyda'r diwydiant ffermydd gwynt a'r holl gyrff priodol sy'n gysylltiedig â hwyluso a rheoleiddio'r defnydd a wneir o briffyrdd (yr Heddlu a Chynghorau Sir yng Nghymru a Lloegr, yr Asiantaeth Priffyrdd, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, a Llywodraeth Cymru ei hun fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Cefnffyrdd yng Nghymru) er mwyn gallu dod â chydrannau tyrbinau gwynt yn ddiogel i safleoedd o fewn yr amserlenni priodol ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt, a hynny wrth leihau'r effaith ar gymunedau, busnesau, defnyddwyr eraill y ffordd a'r amgylchedd. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb i'r diwydiant ffermydd

gwynt i weithio ar y cyd gyda'r holl bartïon i ddatblygu cynlluniau sy'n tarfu cyn lleied â phosibl ar economïau a chymunedau lleol, ac mae wedi pwysleisio pwysigrwydd cael cynllun trafnidiaeth cadarn fel rhan allweddol o unrhyw gais cynllunio.

Mae treialon wedi cael eu cynnal ar nifer o lwybrau, ac mae swyddogion o Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau priffyrdd lleol wedi bod yn eu harsylwi. Bach iawn oedd yr effeithiau ar symudiadau trafnidiaeth yn ehangach, ac mae'r diwydiant ffermydd gwynt yn ceisio lleihau hyn.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Grid Cenedlaethol ac Ymgymerwyr Statudol eraill i hwyluso'r gwaith o ddarparu'r grid pŵer cysylltiedig.

Yn wyneb y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud ar y pwnc hwn a'r dull gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi ei fabwysiadu, nid ydym yn credu bod angen rhoi'r argymhelliad hwn ar waith.

***Argymhelliad 47****. Yn dilyn astudiaeth gan Capita Symonds a awgrymodd y gallai'r rheilffordd gyfrannu at y gwaith o symud rhai o'r cydrannau tyrbin, yn enwedig i'r Canolbarth, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Network Rail a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y defnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd i gludo cydrannau ffermydd gwynt yn cael ei integreiddio i gynlluniau trafnidiaeth datblygwyr lle bo hynny'n briodol.*

**Ymateb: Derbyn**

Y datblygwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu Cynlluniau Rheoli Traffig. Network Rail sy'n gyfrifol am y rhwydwaith rheilffyrdd, ac mae'n brysur yn ceisio annog rhagor o drafnidiaeth cludo nwyddau ar y rheilffyrdd.

Byddwn yn parhau i dynnu sylw at opsiynau cludo nwyddau ar y rheilffyrdd lle bo hynny'n briodol wrth drafod cynlluniau Rheoli Traffig â datblygwyr.

***Argymhelliad 48.*** *Fel rhan o'r adolygiad cyfredol o'r broses gynllunio a chydsynio ar gyfer datblygu ffermydd gwynt, dylai Llywodraeth Cymru rannu arferion da o ran ymdrin â materion trafnidiaeth ar ôl cydsynio drwy ddefnyddio amodau cynllunio priodol lle nad oes unrhyw faterion cronnol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ffyrdd gwledig. Lle nad oes unrhyw effeithiau cronnol, mae materion sy'n ymwneud â chludo cydrannau ffermydd gwynt yn dibynnu ar y lleoliad i ryw raddau. Byddai o fudd rhannu arferion da lle bo hynny'n briodol. Cyfrifoldeb y datblygwr yw rhoi sylw i faterion trafnidiaeth fel rhan o'r broses o wneud cais. Mae amodau sy'n cynnwys rheoli traffig ynghlwm â chydsyniadau ar gyfer prosiectau.

***Argymhelliad 49. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am sicrwydd ar unwaith gan OFGEM bod y Grid Cenedlaethol yn cynnwys lefelau digonol o ddiogelu at y dyfodol yn ei gynlluniau ar gyfer atgyfnerthu'r grid ym mhob rhan o Gymru, er mwyn i'r grid allu ymdopi â natur cynyddol amrywiol a gwasgaredig cynhyrchu ynni.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae trafodaethau ar droed rhwng Llywodraeth Cymru a'r Grid Cenedlaethol ynghylch diogelu'r rhwydwaith cludo at y dyfodol.

***Argymhelliad 50****. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar yr angen i atgyfnerthu'r grid yn sylweddol yn y Canolbarth a'r Gogledd, o ystyried y gwahaniaethau amlwg rhwng datganiadau'r llynedd ar lefelau capasiti Ardaloedd Chwilio Strategol a datganiadau mwy diweddar yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel a'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod seilwaith ynni modern, effeithlon a dibynadwy yn bwysig i'n busnesau a'n cymunedau, ac rydyn ni'n ymrwymo i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd, gan gynnwys ynni gwynt. Yn hollbwysig, fel Llywodraeth rydyn ni hefyd yn cefnogi rhoi terfynau ar lefel datblygiadau ffermydd gwynt mewn ardaloedd penodol, yn ôl diffiniad Ardaloedd Chwilio Strategol Cymru a amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 8 ar Ynni Adnewyddadwy. Mae hyn yn wahanol i Loegr lle nad oes **unrhyw** derfynau ar lefel datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Yn anffodus, nid yw'r broses o ganiatáu seilwaith ynni mawr wedi'i datganoli i Lywodraeth Cymru, er gwaethaf sylwadau cyson i Lywodraeth y DU mai ni ddylai fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n effeithio ar gymunedau Cymru. Mae'n dilyn y bydd 'dim terfynau' yn cael eu gorfodi ar Gymru, fel sydd yn Lloegr.

Gweinidogion Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar gynlluniau ffermydd gwynt mawr, ac yn anffodus nid ydynt wedi datgan y byddant yn parchu'r terfynau ar ddatblygiadau ffermydd gwynt fel y'u hamlinellir ym mholisi TAN 8 Llywodraeth Cymru.

O ran seilwaith grid newydd, byddai'n well gan Lywodraeth Cymru ei weld yn cael ei osod o dan ddaear. Heb ragfarnu yn erbyn hyn, rydyn ni wedi bod yn trafod gyda'r Grid Cenedlaethol, ac yn parhau i drafod, er mwyn lleddfu effaith weledol unrhyw wifrau trydanol newydd. Rydyn ni'n credu y byddai effaith y seilwaith arfaethedig newydd yn llawer mwy pe na byddem wedi cynnal y trafodaethau hyn.

Os bydd Llywodraeth y DU yn caniatáu datblygiadau mawr sydd y tu hwnt i'n pŵer ni, byddem yn disgwyl gweld buddiannau sylweddol i'r cymunedau dan sylw.

***Argymhelliad 51.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grid Cenedlaethol a Gweithredwyr Rhwydwaith Ardal yn cael eu cynnwys yn y protocol ar gyfer buddion cymunedol (gweler argymhelliad 53), er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan seilwaith grid newydd hefyd yn elwa ar y seilwaith cysylltiedig.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae agweddau rheoleiddio i'w hystyried wrth ymateb i'r argymhelliad hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am drafod ag Ofgem yn y lle cyntaf i weld sut y gall buddion economaidd a chymunedol ddeillio o ddatblygiadau seilwaith grid yng Nghymru. Yna, os yw'n briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am drafodaeth â'r Grid Cenedlaethol a Gweithredwyr Rhwydweithiau Rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod costau gwella seilwaith y grid yn cael eu pasio ymlaen yn rhannol i ddefnyddwyr, a rhaid ystyried hyn yn fanwl o ystyried y gwelliannau sylweddol i'r seilwaith yr ydym yn debygol o'u gweld hyd a lled y DU yn y blynyddoedd nesaf.

***Argymhelliad 52.*** *Dylai Llywodraeth Cymru annog OFGEM i sicrhau bod dull cyson a symlach o sicrhau a chodi tal am gysylltiadau â'r grid yn achos prosiectau ynni adnewyddadwy bach.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Wrth i ni symud tuag at ddatblygu rhwydweithiau carbon isel, mae cysylltu dulliau cynhyrchu gwasgaredig yn broses sy'n fwyfwy cymhleth, masnachol a pheirianegol. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y ceisiadau cynhyrchu gwasgaredig, sydd wedi eu sbarduno gan newidiadau mewn polisïau Llywodraeth y DU o ran Tariffau Cyflenwi Trydan.

Bydd Ofgem yn cyflwyno dull gweithredu newydd i reoleiddio rhwydweithiau yn 2015 sydd â'r nod o hyrwyddo rhwydweithiau doethach ar gyfer dyfodol carbon isel ac yn rhoi cynaliadwyedd ochr yn ochr â defnyddwyr wrth galon yr hyn y mae cwmnïau rhwydwaith yn ei wneud. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull gweithredu newydd Ofgem ar gyfer rheoleiddio rhwydweithiau ac yn croesawu ymatebion cadarnhaol Scottish Power Energy Networks a Western Power Distribution.

***Argymhelliad 53. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda datblygwyr a Renewable UK Cymru i gwblhau gwaith ar brotocol ar gyfer buddion cymunedol erbyn canol 2012.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda Renewable UK Cymru a datblygwyr ynni gwynt ar y tir ynghylch y mater hwn. Efallai mai protocol fydd allbwn y gwaith hwn, ond rydym yn awyddus i ddysgu gwersi o brotocol Lloegr, sydd wedi cael cyn lleied o effaith â phosibl. Rydym hefyd yn datblygu

gwaith i ddeall y buddion economaidd sylweddol posibl sy’n deillio drwy gyfleoedd cadwyn cyflenwi gyda busnesau Cymru yn ystod cyfnodau adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw, er mwyn hybu cyflogaeth yn lleol, na ellir ei ddatgysylltu’n gyfan gwbl o’r dulliau gweithredu budd i’r gymuned. Mae hwn yn ddarn o waith cymhleth, a bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.
***Argymhelliad 54. Yn ogystal â chymunedau y mae datblygiadau ynni adnewyddadwy’n effeithio’n uniongyrchol arnynt, dylai’r protocol ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gyfrannu at gymunedau sy’n cael eu heffeithio’n anuniongyrchol gan y cynigion yn sgil y seilwaith cysylltiedig (ffyrdd a’r grid).***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Derbynnir yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, fel argymhelliad 53. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi, am resymau technegol, mae’n debygol y bydd yn anodd asesu’n gywir a phennu’r effeithiau ar gymunedau sy’n cael eu heffeithio’n anuniongyrchol gan ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.

***Argymhelliad 55.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi a hyrwyddo gwaith Ynni Cymunedol Cymru fel ffynhonnell wybodaeth a chyngor i gymunedau lleol. Dylai ddarparu peth cyllid i Ynni Cymunedol Cymru fel y gall weithredu fel eiriolwr medrus i gynghori cymunedau lleol ar reoli a defnyddio cyfraniadau buddion cymunedol ar gyfer prosiectau ynni mawr a’r seilwaith cysylltiedig.*

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol**

Yn ddiweddar, lansiodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Ynni Cymunedol Cymru yng Ngŵyl y Gelli ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi grwpiau cymunedol yng Nghymru sy’n dod ynghyd i sefydlu rhwydwaith cefnogi ar gyfer y sector.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi gwaith Ynni Cymunedol Cymru yn benodol wrth greu cysylltiadau rhwng Ynni Cymunedol Cymru a rhaglen ynni adnewyddadwy cymunedol Llywodraeth Cymru, Ynni’r Fro. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi datblygiad Ynni Cymunedol Cymru drwy ariannu Cynnal Cymru, sydd wedi arwain ar sefydlu’r rhwydwaith.

Yn *Ynni Cymru,* dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai’n ceisio ailfuddsoddi’r buddion a ddeilliodd o brosiectau ynni i gefnogi rhagor o welliannau mewn seilwaith, i wneud y gorau o’r budd economaidd a chymunedol, a gwneud cynnydd gyda thechnoleg arloesol a masnacheiddio yng Nghymru. Nid yw’r mecanweithiau ar gyfer cefnogi’r nod hwn wedi eu datblygu eto, gyda Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn o bryd gyda’r diwydiant ynni gwynt ar y tir a Renewables UK Cymru i gytuno sut y gellir gwneud y gorau o fuddion economaidd a chymunedol. Mae unrhyw fecanweithiau cefnogi y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio’n debygol o fod yn destun proses dendro gystadleuol yn y dyfodol.

***Argymhelliad 56.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth i ymchwilio i ymarferoldeb diwygio polisïau cenedlaethol a chanllawiau cynllunio lleol*

*cyfredol i ymgorffori ystyriaeth fwy cadarn a systematig o becynnau buddion cymunedol a lefelau tâl gorfodol gan ddatblygwyr ynni adnewyddadwy sydd wedi eu cysylltu'n ffurfiol â'r broses gynllunio/cydsynio.*

**Ymateb: Gwrthod**
Mae penderfyniadau ynghylch ceisiadau'n seiliedig ar rinweddau cynllunio, ac mae hynny'n egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu yn y system gynllunio. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yn rhaid gwneud pob penderfyniad cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu oni bai fod amgylchiadau perthnasol yn nodi'n wahanol. Gellir herio'r system gynllunio drwy gydol y broses o benderfynu ar geisiadau, a gallai ystyried budd cymunedol posibl yn y broses gwneud penderfyniadau ddwyn anfri ar y system.

Rydym yn cefnogi egwyddor buddion cymunedol fel ymrwymiadau ddwy ffordd rhwng datblygwyr a'r gymuned. Fel rheol, negodir y telerau y tu allan i'r caniatâd cynllunio. Os nad oes ffin amlwg rhwng y system gynllunio ac unrhyw fuddion perthnasol a allai ddeillio, gellid dehongli bod penderfyniadau cydsynio wedi cael eu prynu.

***Argymhelliad 57**. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith ffurfiol er mwyn i wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd am lefel a natur y buddion sy'n gysylltiedig â datblygu ynni sydd ar gael i gymunedau.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen â hyn yn y lle cyntaf gyda Renewables UK Cymru a datblygwyr ynni gwynt ar y tir. Bydd tryloywder o ran deall budd sylweddol newid carbon isel i Gymru yn helpu cymunedau a datblygwyr.

***Argymhelliad 58**. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cyfnod ymgynghori cyn ymgeisio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy rhwng 5 a 50 megawat, wedi'i fodelu ar weithdrefn Deddf Cynllunio 2008 ar gyfer Prosiectau Seilwaith Strategol Cenedlaethol.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Ym mis Gorffennaf 2012 fe wnaethom gyhoeddi canllawiau newydd ar wireddu potensial trafodaethau cyn cyflwyno cais. Mae'r canllawiau'n berthnasol i bob math o ddatblygiadau a'u bwriad yw cefnogi ymgeiswyr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol i leihau'r amser a gymerir wrth ymdrin â cheisiadau a gwella ansawdd y ceisiadau cynllunio. Byddwn yn ystyried ffurfioli'r camau cyn gwneud cais yn y Papur Gwyn ar Gynllunio.

***Argymhelliad 59**. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno newidiadau i ymestyn hawliau datblygu a ganiateir i eiddo annomestig erbyn diwedd 2012 fan bellaf.*

**Ymateb: Derbyn**

Bydd hawliau datblygu a ganiateir i eiddo domestig ac annomestig yn cael eu cyflwyno cyn diwedd 2012.

***Argymhelliad 60.*** *Wrth gefnogi/hyrwyddo Ynni Cymunedol Cymru (gweler argymhelliad 55), dylai Llywodraeth Cymru annog datblygiad pecyn cymorth a hyfforddiant penodol ar gyfer cymunedau sydd am ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy bach.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae amrywiaeth o becynnau cymorth i helpu cymunedau ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy bach wedi cael eu datblygu ledled y DU. Fel rhan o'i hymrwymiad i gefnogi prosiectau ynni cymunedol, mae Llywodraeth Cymru wedi cydgyllido'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth a elwir yn Llwybrau Cymunedol, sydd wedi cael ei ddylunio gan Fforwm Ymarferwyr Ynni Cymunedol.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu gwybodaeth ac arweiniad annibynnol a rhyngweithiol ar bron i 40 o wahanol ddulliau gweithredu cymunedol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd, gan gynnwys cyngor ar ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol. Mae'n bosibl cael mynediad at y pecyn cymorth hwn drwy wefan, sydd hefyd yn darparu dolenni at amrywiaeth eang o enghreifftiau o brosiectau cymunedol sydd ar waith. Mae rhagor o adnoddau a gwybodaeth a allai fod yn berthnasol ar gyfer pob math o brosiectau ar gael ar y wefan hon hefyd.

Mae ein prosiect Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Ynni'r Fro, yn darparu cymorth penodol i gymunedau sy'n dymuno rhoi prosiectau ynni adnewyddadwy bach ar waith. Elfen bwysig o'r gefnogaeth a ddarperir drwy Ynni'r Fro, yw'r rhwydwaith o Swyddogion Datblygu Technegol ledled Cymru sy'n gweithio'n agos gyda chymunedau sy'n dymuno datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ac yn rhoi cymorth a chyngor technegol iddynt.

***Argymhelliad 61.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi targedau diwygiedig ar gyfer Microgynhyrchu, o ystyried bod y targedau yng Nghynllun Gweithredu Microgynhrychu 2007 wedi'u disodli.*

**Ymateb**: **Gwrthod**

Gosodwyd y targedau gwreiddiol cyn i Lywodraeth y DU sefydlu'r Cynllun Tariff Cyflenwi Trydan. Y cynllun hwn fu'r prif ysgogiad a chymhelliant i'r nifer sydd wedi manteisio ar dechnolegau microgynhyrchu ers iddo ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2010.

Mewn ymateb i'r galw a fu a'r angen i sicrhau y cedwir o fewn y gyllideb, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU wedi gostwng y tariffau sydd ar gael yn sylweddol, a hynny ar fyr rybudd. Yn benodol, mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith ar fesurau solar

ffotofoltäig bychan ac wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y niferoedd sy'n manteisio ar y dechnoleg hon.

Y Tariff Cyflenwi Trydan yw'r prif ffactor ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau microgynhyrchu. Yn dilyn y newidiadau diweddar mewn polisi, gostwng y tariffau yn y dyfodol yn seiliedig ar gyfraddau defnyddio yn y farchnad fydd y brif ffordd o reoli costau i sicrhau bod y cynllun yn cadw o fewn y gyllideb a nodwyd. Oherwydd y bydd gostyngiadau yn y tariffau sy'n seiliedig ar y defnydd a wneir yn cael eu defnyddio i reoli'r niferoedd sy'n manteisio ar y farchnad, nid yw bellach yn briodol gosod targedau ar gyfer microgynhyrchu.

***Argymhelliad 62****. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU ac OFGEM i ddatrys problemau o ran dehongli rheolau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd lle mae prosiectau cymunedol yn gwneud cais am Dariffau Cyflenwi Trydan a hefyd yn derbyn cyllid gan y cronfeydd strwythurol.*

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol**

Mae rheolau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd, yn ogystal â deddfwriaeth gysylltiedig y DU ar y cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan o ran prosiectau cymunedol a chymorth o gronfeydd strwythurol a chronfeydd cyhoeddus eraill, nawr yn cynnig arweiniad clir yng nghyswllt y gweithgareddau sy'n gymwys am gymorth. Mae'r rheolau'n parhau i sbarduno ac ysgogi buddsoddiad mewn prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol drwy'r incwm a geir drwy'r Tariff Cyflenwi Trydan.

Roedd deddfwriaeth y DU a Chanllawiau Ofgem a baratowyd yn 2011 yn darparu esboniad pellach o'r gefnogaeth gyhoeddus o bob ffynhonnell, gan gynnwys cronfeydd Llywodraeth Cymru a chronfeydd strwythurol Ewrop, a ganiateir fel arian grant i brosiectau cymunedol. Mae nawr yn amlwg na all prosiect cymunedol dderbyn arian cyhoeddus tuag at gostau gosod (h.y. y cyfarpar cynhyrchu a'r gwaith adeiladu a dylunio cysylltiedig) a hawlio cymorth o dan y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan hefyd, heblaw mewn achosion o gostau "ansafonol" sy'n deillio o ganlyniad i osod mesurau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag osgoi neu leihau niwed amgylcheddol.

Yn ein hymateb i ymgynghoriad Phase 2B Llywodraeth y DU ar Dariffau Cyflenwi Trydan, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at yr angen i Ofgem weithio gyda grwpiau cymunedol i'w helpu i adnabod gweithgareddau penodol a fyddai, neu na fyddai, yn gymwys am arian grant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Ofgem i sicrhau mwy o eglurder i gymunedau ynghylch categorïau gwariant cymwys a ffynonellau cyllid wrth i'r ymholiadau godi. Yn yr un modd, byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac Ofgem i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau ynni cymunedol.

***Argymhelliad 63**. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu is-grŵp o'r Bwrdd Cyflawni Ynni Adnewyddadwy arfaethedig (gweler Argymhelliad 1) gyda chyfrifoldeb am ddatblygiadau ynni'r Môr ac ynni'r Llanw ledled Cymru a dylid modelu hyn ar Ynni Morol Sir Benfro.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Rhaglen Ynni Cymru wedi cael ei pharatoi i gyflwyno *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*. Wrth wneud hynny, bydd angen ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol (fel busnesau, llywodraeth, rheoleiddwyr, cymunedau a chyrff ymchwil) er mwyn datblygu ein cynlluniau, rhoi sicrwydd, cael gwared â rhwystrau a chyflawni.

Bydd angen i ni ddatblygu dulliau gweithredu ar gyfer ymgysylltu, cefnogi ein hamcanion cyffredinol yn ogystal â thyrchu i faterion sector-benodol. Mae gennym ni gysylltiadau cryf yn sector y môr a'r llanw eisoes, ond bydd hyn yn cael ei ffurfioli yn ystod y misoedd nesaf. Efallai mai dull gweithredu Ynni Morol Sir Benfro fydd y dull gweithredu mwyaf priodol, ond byddwn bob amser yn ceisio sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

***Argymhelliad 64**. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth gadarn am lanw, tonnau a cherhyntau o gwmpas arfordir Cymru yn cael ei chasglu a'i rhannu â'r cyhoedd i leihau ansicrwydd ymysg darpar ddatblygwyr.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu dull cydlynus, rhagweithiol o ran cyflwyno ynni'r môr yng Nghymru o dan ymbarél Bwrdd Rhaglen Ynni Cymru.

Yn ystod 2008-2011, ariannodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Strategol Ynni Adnewyddadwy'r Môr (MRESF), prosiect gwerth £1m i asesu'r posibilrwydd o gael ynni o ddyfroedd Cymru drwy ddefnyddio technolegau tonnau a llif llanw, gan ystyried cyfyngiadau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol y datblygiad. Daeth y prosiect â llyfrgell o ddata amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol ynghyd er mwyn gallu mapio'r cyfyngiadau. Ar hyn o bryd, mae'r data y mae'r prosiect wedi eu cipio ar gael i ddatblygwyr yn unig eu gweld, ar eu cais.

Mae'r data amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol sylfaenol sy'n sail i'r Fframwaith yn rhwym wrth gytundebau trwydded sy'n cyfyngu ar y defnydd a wneir o'r data at ddibenion y prosiect. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid Llywodraeth Cymru yw deilydd y data, felly nid yw'n gallu sicrhau bod y data sylfaenol ar gael yn rhwydd. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn adnewyddu'r teclyn mapio cyfyngiadau ar y we yn yr hydref, a bydd ar gael i'r cyhoedd a bydd y datblygwyr yn gallu lanlwytho eu gwybodaeth eu hunain am eu safleoedd.

Mae'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel wedi gwneud gwaith ymchwil i fireinio'r adnoddau tonnau a llanw mewn lleoliadau allweddol ar ein harfordir. Bydd pob darn o waith ymchwil a ariennir gan gyllid cyhoeddus, gan gynnwys y

data a gasglwyd o dan faner Fframwaith Strategol Ynni Adnewyddadwy'r Môr, ar gael i'r cyhoedd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sefydlu rhaglen o waith ymchwil wedi'i blaenoriaethu ar gyfer safleoedd allweddol ger Cymru, a bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan y Llywodraeth, y byd academaidd, rheoleiddwyr a'r diwydiant.

***Argymhelliad 65.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda rhanddeiliaid sector preifat a chyhoeddus i archwilio potensial Aber Afon Hafren fel ffynhonnell ynni'r llanw adnewyddadwy.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae consortiwm preifat wedi cyflwyno cynigion ar gyfer Morglawdd Hafren ac maent wedi bod mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU. Byddwn ninnau'n trafod cynigion y consortiwm yn fanylach â'r consortiwm hefyd.

***Argymhelliad 66.*** *Dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gyda'r Sefydliad Rheoli Morol ar ymdrin â phrosiectau ynni adnewyddadwy, erbyn diwedd 2012 fan bellaf.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Ar y sail bod yr argymhelliad hwn yn berthnasol i brosiectau lle mai'r Sefydliad Rheoli Morol sy'n gyfrifol am gydsyniadau ynni a lle mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y drwydded forol, mae gennym drefniadau gwaith gyda'r Sefydliad Rheoli Morol er mwyn i Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru arwain ar brosiectau o'r fath er mwyn darparu proses mor syml â phosibl i ymgeiswyr. Felly y mae ar hyn o bryd gyda thyrbinau cerrynt y môr Skerries, er enghraifft. Byddwn yn ystyried yr angen i ffurfioli trefniadau o'r fath, ond gan y bydd disgwyl i'r swyddogaeth trwyddedu morol gael ei dirprwyo i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru o fis Ebrill 2013, mae'n debygol y byddai'n fwy cynhyrchiol symud ymlaen yn syth at gytundeb ffurfiol rhwng y Sefydliad Rheoli Morol a'r corff newydd.

***Argymhelliad 67****. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n agos gapasiti cyfan a lefelau tunelledd gwastraff sy'n gysylltiedig â safleoedd troi gwastraff yn ynni a gomisiynir gan awdurdodau lleol a dylai adolygu ei pholisïau ar drin gwastraff gweddilliol pan fo'r sefyllfa'n fwy clir.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Cytunir bod angen monitro'r sefyllfa ac mae dulliau monitro o'r fath eisoes ar waith. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd ar 10 Gorffennaf 2012. Mae hyn yn cynnwys manylion ynghylch y gwastraff gweddilliol sy'n codi ar hyn o bryd a'r hyn a ragwelir yn y dyfodol, ac mae'n cynnwys manylion am gapasiti presennol troi gwastraff yn ynni a'r hyn a gynllunnir. Mae'r cynllun yn nodi bwlch yn y capasiti yn y dyfodol ar gyfer cyfleusterau troi gwastraff yn ynni, ac mae

angen eu datblygu yng Nghymru er mwyn rheoli gwastraff gweddilliol yn gynaliadwy.

***Argymhelliad 68****. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau cynllunio i annog datblygiad cyfleusterau sy'n cynnig yr opsiynau gorau ar gyfer adfer gwres o wastraff, drwy'r diwygiadau i Nodyn Cyngor Technegol 21 (Cynllunio a Gwastraff) a chanllawiau atodol awdurdodau cynllunio lleol.*

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn ymgynghori ar y diwygiadau i'r polisi cynllunio ar gyfer gwastraff a Nodyn Cyngor Technegol 21 cysylltiedig.

***Argymhelliad 69****.Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir gosod gofyniad bod pwysau uwch yn cael ei ystyried yn ystyriaeth berthnasol yn achos ailddefnyddio gwres a gynhyrchir gan safleoedd troi gwastraff yn ynni ar gyfer cynlluniau gwresogi ardaloedd ym mhenderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol ar geisiadau cynllunio.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym yn credu bod y canllawiau presennol a'r cymorth ym Mhennod 12 Polisi Cynllunio Cymru a'r Pecyn Cymorth ar gyfer Ynni Adnewyddadwy eisoes yn darparu'r cyd-destun er mwyn cyflawni hyn.

***Argymhelliad 70****.Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun drafft ar reoli gwastraff drafft ar gyfer y Sector Diwydiannol a Masnachol erbyn diwedd 2012 fan bellaf. Dylai hyn gynnwys cynlluniau gweithredu manwl yn y sector hwn ar gyfer gwahanu gwastraff bwyd yn y tarddle ac arallgyfeirio gwastraff bwyd o safleoedd tirlenwi i safleoedd treulio anaerobig ynghyd â ffyrdd o sicrhau gostyngiad cyffredinol a threfniadau gwaredu amgen ar gyfer pob math o wastraff o'r sector hwn.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Cynllun Sector Diwydiannol a Masnachol drafft ar gyfer ymgynghoriad yn hydref 2012. Mae atal ac ailgylchu gwastraff bwyd yn flaenoriaeth o dan *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, dogfen strategaeth gwastraff cyffredinol Cymru. Treuliad anaerobig yw'r dechnoleg a ffefrir ar gyfer rheoli gwastraff bwyd a gesglir ar wahân.

***Argymhelliad 71****. Cyhoeddwyd drafft o Gynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd ar reoli gwastraff ym mis Mawrth 2011 er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiwn terfynol o'r cynllun hwn cyn gynted â phosibl a datblygu'r camau gweithredu y mae'n eu nodi i annog defnydd pellach o dreulio anaerobig ar gyfer trin gwastraff bioddiraddiadwy a gynhyrchir gan y sector.*

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Cynllun Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd terfynol yn hydref 2012.

***Argymhelliad 72.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ychwanegol i gynorthwyo datblygiad safleoedd treulio anaerobig bach ar ffermydd.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Derbyniodd Llywodraeth flaenorol Cynulliad Cymru argymhelliad yn adroddiad y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd allanol (Hydref 2010) i roi cefnogaeth er mwyn i'r holl dail/slyri o'r fuches odro a systemau cig eidion/lloi perthynol gael ei brosesu trwy dreuliad anaerobig, a manteisio ar y potensial o ran bio-nwy.

Mae Llywodraeth bresennol Cymru, mewn partneriaeth ag Is-grŵp Defnydd Tir Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, yn brysur yn ceisio canfod yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag manteisio ar hyn a mesurau i oresgyn y rhwystrau. Hefyd, bydd cyfle i edrych eto ar y mesurau cymorth posibl wrth i'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf gael ei baratoi.

***Argymhelliad 73****. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad oes unrhyw awdurdod cynllunio lleol yn mynnu bod cydsyniad wedi'i dderbyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cynllun ynni dŵr cyn y bydd yn ystyried cais cynllunio. Dylid cynnwys y gofyniad hwn yn ei adolygiad o'r broses gynllunio/caniatáu ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy (gweler argymhelliad 23).*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym yn derbyn y dylai'r system gynllunio fod mor effeithiol a chymesur â phosibl. Byddwn yn ystyried sut y gellir hwyluso mesurau effeithlonrwydd trwy'r Papur Gwyn ar Gynllunio ac mae sefydlu Un Corff yn cynnig cyfle i resymoli'r drefn gydsynio a chaniatáu.

***Argymhelliad 74****. Dylai Llywodraeth Cymru annog Asiantaeth yr Amgylchedd i fynd ati ar fyrder i lunio fersiwn diwygiedig o'i Chyfarwyddyd Ymarfer Da ar gyfer cynlluniau ynni dŵr "High Head" i gynnwys dull cyson o 'rannu llif' ledled Cymru a Lloegr, a gwneud hynny erbyn diwedd 2012 fan bellaf.*

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol**

Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd ymgynghoriad ffurfiol ar adolygu eu Canllawiau Arfer Da ar ynni dŵr, a oedd yn cynnwys cyngor diwygiedig ar rannu llif mewn cynlluniau 'High Head'. Ers i'r ymgynghoriad ddod i ben, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod yn ystyried yr ymatebion ac yn datblygu ei chanllawiau diwygiedig ar y cyd â chynrychiolwyr diwydiannol ac amgylcheddol. Hyd yma, mae'r Asiantaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol ac wedi cwblhau rhan helaeth o'r adolygiad. Fodd bynnag, ar ôl ystyried canlyniad yr ymgynghoriad yn fanwl, a'r trafodaethau cysylltiedig, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi penderfynu

lansio Ymgynghoriad Atodol ar yr opsiynau ar gyfer safonau llif a thynnu ar gyfer ynni dŵr yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol. O ganlyniad, ni fydd yn bosibl paratoi canllawiau newydd erbyn diwedd 2012. Mae'r Asiantaeth yn disgwyl cyhoeddi ei hymgynghoriad ym mis Medi 2012, gan gyhoeddi Canllawiau diwygiedig yn 2013.

***Argymhelliad 75.*** *Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi Ymchwil a Datblygu yng Nghymru er mwyn archwilio dichonoldeb technegol ac economaidd prosesau dal a storio carbon ar gyfer gorsafoedd pŵer tân nwy sy'n bodoli'n barod a rhai'r dyfodol.*

**Ymateb: Derbyn**

Er bod cynnydd mewn nwy yn hanfodol mewn newid carbon isel, ni all fod yn ateb hirdymor i economi ynni Cymru heb ddulliau o ddal a storio carbon. Felly bydd dal a storio carbon, os bydd yn cael ei fasnacheiddio a'i gefnogi'n briodol gan y fframwaith rheoleiddiol priodol, yn rhan hanfodol o'n dyfodol o safbwynt ynni yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Rydym yn falch bod Cymru yn arwain y DU drwy'r prosiect peilot dal carbon yng Ngorsaf Bŵer Aberthaw, prosiect y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gefnogi o'r dechrau.

***Argymhelliad 76****. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cwmnïau preifat yn deall o'r cychwyn cyntaf fod gwerth hawliau eiddo deallusol sy'n gysylltiedig â buddsoddiad, lle mae arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu i helpu i gyllido gwaith Ymchwil a Datblygu ym maes ynni, yn mynd i gael eu rhannu gyda'r corff cyllido sector cyhoeddus.*

**Ymateb: Gwrthod**

Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Eiddo Deallusol y DG, "Eiddo Deallusol mewn Contractau Ymchwil y Llywodraeth", polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai Eiddo Deallusol sy'n deillio o waith ymchwil a ariennir gan gyllid cyhoeddus fod yn perthyn i'r sefydliadau sy'n cynnal yr ymchwil hwnnw (y darparwyr ymchwil), yn hytrach na phrynwyr yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, diogelir buddiannau Llywodraeth Cymru (gan gynnwys hawliau i ddefnyddio Eiddo Deallusol yn llawn ar gyfer anghenion polisi a busnes y Llywodraeth, a chaniatáu cyhoeddi gwybodaeth o'r fath fel sy'n briodol yn unol â pholisi'r Llywodraeth) drwy ddarpariaethau addas dan gontract.

***Argymhelliad 77****. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i lunio canllawiau technegol ar ffurf Nodyn Cyngor Technegol newydd i helpu awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i ymdrin â cheisiadau cynllunio ar gyfer chwilio am nwy anghonfensiynol a'i echdynnu, gan gynnwys ceisiadau lle cynigir defnyddio ffracio hydrolig.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraethau eraill yn y DU er mwyn ystyried y wyddoniaeth newydd yn y maes hwn, a byddwn yn sicrhau bod y polisi yn cael ei ddiweddaru yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, nid ydym o anghenraid yn argyhoeddedig fod y materion yn ddigon gwahanol i gyfiawnhau Nodyn Cyngor Technegol newydd.

**Goblygiadau Ariannol:**
O dan y cyllidebau presennol.